**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Lower Pwyllgor Ardal Gwy held at Shirenewton Church Room, Shirenewton on Dydd Mercher, 15fed Mehefin, 2016 at 10.00 am**

**PRESENT:** County Councillors: G. Down, P. Farley, R.J.W. Greenland and P.A.D. Hobson

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Deb Hill-Howells | Head of Community Led Delivery |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**APOLOGIES:**

Councillors A. Webb, D. Batrouni and P. Murphy

1. **Etholiad Cadeirydd.**

Etholwyd y Cynghorydd Sir D.L.S. Dovey fel Cadeirydd.

2. **Apwyntiad Is-Gadeirydd.**

Penodwyd y Cynghorydd Sir A. Webb fel Is-gadeirydd

3. **Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd y Cynghorydd Sir P. Farley fuddiant personol, manteisiol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau yn gysylltiedig ag eitem 6a Canolfan Gymunedol Bulwark gan fod ei briod yn aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Gymunmedol Bulwark.

Datganodd y Cynghorydd Sir D.L.S. Dovey fuddiant personol, manteisiol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau yn gysylltiedig ag eitem 6a Canolfan Gymunedol Bulwark gan fod ei briod yn aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Gymunmedol Bulwark.

4. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ardal Rhannau Isaf Afon Gwy dyddiedig 13eg Ionawr 2016 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

5. **Diweddariad ar Gorsaf Pwer Oldbury.**

Darparodd y Cadeirydd ddiweddariad i'r Pwyllgor Ardal ynghylch Gorsaf Bŵer Oldbury. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r safle bellach yn rhydd o danwydd gyda'r gasgen olaf wedi'i symud yn Ebrill 2016.

- Bydd digomisiynu'r safle yn digwydd cyn bo hir.
- Dymchwelir yr ardal dan y ddaear i ganol y safle.
- Adferir yr holl ardal ac fe'i gorchuddir gan laswellt. Y terfyn amser ar gyfer cwblhau'r gwaith fydd tair blynedd.
- Rhoddwyd ystyriaeth i nodi Gorsaf Bŵer Oldbury ar y safle yn dilyn y digomisiynu.
- Mae cyllid ar gyfer cynlluniau cymunedol yn debygol o fod ar gael yn dilyn y digomisiynu. Gobeithid y cynhwysid Cas-gwent yn y cynllun hwn.

6. **Ceisiadau Cyllid Cyfalaf:**

Amlinellodd Pennaeth Cyflenwi a Arweinir gan y Gymuned y weithdrefn y tu ôl i gyflwyno cyllid cyfalaf i sefydliadau sydd wedi cyflwyno ceisiadau i'r Pwyllgor Ardal am gyllid. Roedd cyllid cyfalaf o £5000 arf gael ar hyn o bryd o gyllideb 2015/16.

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol am gyllid ac fe'u hystyriwyd gan Y Pwyllgor Ardal:

**Canolfan Gymunedol Bulwark**

Gwnaed cais am: £1000

Rheswm: Disodli'r boeler yng Nghanolfan Gymunedol Bulwark.

Cynigiwyd ein bod o blaid cymeradwyo'r cais ar yr amod ein bod yn derbyn gwybodaeth ariannol.

Wedi'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid cymeradwyo | - | 3 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 1 |
| Atal pleidlais | - | 1 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynasom ein bod o blaid cymeradwyo'r cais ar yr amod ein bod yn derbyn gwybodaeth ariannol.

**Cystadleuaeth Pentref Mwyaf Taclus Gwent**

Gwnaed cais am: £250

Rheswm: Tuag at dreuliau beirniaid gwirfoddol a fyddai'n ymweld â'r pentrefi a gymerai ran yn y gystadleuaeth a'u beirniadu. Hefyd, tuag at brynu tlysau a fframiau ar gyfer y tystysgrifau i'r ysgolion a'r pentrefi buddugol.

Wedi trafod y cais, penderfynwyd nad oedd y cais yn cwrdd â'r meini prawf perthnasol.

Cynigiwyd gwrthod y cais.

Wedi'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Gwrthod y cais | - | 5 |
| Yn erbyn gwrthod y cais | - 0 | |
| Atal pleidlais | - | 0 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynasom fod y cais yn cael ei wrthod. Felly, penderfynasom beidio â chefnogi'r cais hwn.

**Pwyllgor Canolfan Gymunedol Caerwent Cyf.**

Gwnaed cais am: £2000

Rheswm: Tuag at adnewyddu prosiect Canolfan Gymunedol Caerwent, sy'n cynnwys rhoi to newydd i'r ganolfan ac adnewyddu'r goleuadau crog.

Mae'r meini prawf ar gyfer y grant hwn yn golygu bod yn rhaid iddo gael ei wario o fewn 12 mis neu bydd yn rhaid ei ad-dalu. Felly byddai cymeradwyo'r cais yn golygu y byddai'n ofynnol i'r ymgeisydd roi sicrwydd dros raglenni a phroffiliau gwariant.

Cynigiwyd cymeradwyo'r cais ar yr amod bod yr ymgeisydd yn rhoi sicrwydd dros raglenni a phroffiliau gwariant i sicrhau bod y grant yn cael ei wario o fewn 12 mis.

| | | |
|---|---|---|
| O blaid cymeradwyo - | 5 | |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 0 |
| Atal pleidlais | - | 0 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynasom fod y cynnig yn cael ei gymeradwyo ar yr amod bod yr ymgeisydd yn rhoi sicrwydd dros raglenni a phroffiliau gwariant i sicrhau bod y grant yn cael ei wario o fewn 12.

Nodwyd bod dau gais am arian nawdd a gafodd eu cyflwyno ond heb eu derbyn gan y Pwyllgor. Hysbysodd Pennaeth Cyflenwi a Arweinir gan y Gymuned y Pwyllgor y byddai hi'n ymchwilio i'r mater hwn.

**7. <u>Fforwm Agored i'r Cyhoedd</u>**

Hysbysodd un o breswylwyr St Arvans y Pwyllgor Ardal fod Cwrs Rasio Cas-gwent wedi cyflwyno cais cynllunio i ddymchwel un o'i eisteddleoedd a chodi adeilad newydd a ddefnyddir yn rhannol gan y Kennel Club. Mynegodd y pryderon canlynol:

- Bydd yn ddatblygiad o bwys o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Lower Pwyllgor Ardal Gwy held at Shirenewton Church Room, Shirenewton on Dydd Mercher, 15fed Mehefin, 2016 at 10.00 am**

- Nid oes gwybodaeth ynghylch pa mor aml y bydd y Kennel Club yn defnyddio'r adeilad hwn.
- Bydd yr adeilad yn disodli eisteddle 3 a bydd wedi'i leoli yn agos i'r clwydi i'r heol. Bydd yr adeilad islaw lefel yr heol. Codir yr adeilad ar ongl i gadw llinellau'r safle.
- Bydd yr adeilad newydd bum troedfedd yn uwch a bydd ar yr un lefel â'r heol.
- Bydd llinell y toeon ar wahanol lefel i doeon eraill.
- Bydd yr adeilad yn amlwg iawn a bydd yn agos i'r heol.
- Mae e, felly, yn gwrthwynebu'r cais ar sail maint, lleoliad ac ar y diffyg gwybodaeth ynghylch ei ddefnydd arfaethedig.
- Ar ddiwrnodau rasio/cyngherddau mynegodd bryder ynghylch annigonolrwydd y ddarpariaeth rheoli traffig.

Nododd aelodau'r Pwyllgor y pryder a fynegwyd gan y preswylydd.

**8. I gytuno'r Rhaglen Gwaith am Pwyllgor Ardal Gwy Isaf am 2016/17.**

Penderfynasom fod yr eitemau canlynol yn cael eu hychwanegu at y rhaglen waith:

- Gwahodd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan i ddiweddaru'r Pwyllgor Ardal ar swyddogaeth Ysbyty Cas-gwent a'i swyddogaeth yn y gymuned.
- Gwahodd Uwch Swyddogion o Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan i ddiweddaru'r Pwyllgor Ardal ar Ddarpariaeth Gofal Iechyd yn Ne Cymru.
- Diweddariad ar dlodi tanwydd yn yr ardal.
- Perfformiad yr Hyb Cymunedol.

**9. I gadarnhau'r diwrnod a'r amser o'r cyfarfod nesaf:**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Mercher 14eg Medi 2016 am 10.00am.

**The meeting ended at 11.45 am**